# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 6ED MAWRTH, 2017**

**(DILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG)**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 27 Chwefror 2017)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Christopher Hughes
W. Tudor Owen
John Wyn Williams
Annwen Hughes
Dilwyn Morgan
Ann Williams
R. H. Wyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
Angela Russell
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Peter Read
Anwen J. Davies

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12.12.16 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 8

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 15.12.2016

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 12.12.16

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Dilwyn Morgan, Eryl Jones-Williams, Angel Russell, Ann Williams, John Wyn Williams a RH Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Croesawyd y Cynghorwyr Anwen Davies a Dilwyn Morgan i'r Pwyllgor.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peter Read, Louise Hughes, Tudor Owen ac Elfed W. Williams
Adroddwyd bod y Cynghorydd Tudor Owen wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan iddo a phenderfynwyd anfon cerdyn iddo gan y Pwyllgor.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 20fed o Fehefin 2016 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 25.05.16, 04.10.16 a 19.10.16

**6. TRWYDDEDU TACSIS A DEDDF MEWNFUDO 2016**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio yn amlygu diwygiadau i'r Ddeddf Mewnfudo 2016 a oedd wedi dod i rym ar y 1af o Ragfyr 2016. Pwrpas y diwygiadau oedd sicrhau nad yw Awdurdodau Trwyddedu yn cyflwyno trwyddedau i fewnfudwyr anghyfreithlon ac yn cyflawni'r ddyletswydd yma drwy wiriadau mewnfudo.

Wrth ymhelaethu ar y cefndir nodwyd,

- Bod y Ddeddf yn diwygio cyfundrefnau trwyddedu presennol yn y DU i geisio atal gweithio anghyfreithlon yn y sector trwyddedu tacsis/cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni.

- Bod y Ddeddf 2016 yn ymgorffori dulliau diogelu mewnfudiad yng nghyfundrefnau trwyddedu presennol yng nghyswllt Deddf Trwyddedu 2003 ar draws y DU, ond nid yw trefniadau ar gyfer y darpariaethau yma wedi'u cadarnhau

Tynnwyd sylw at effaith y mesurau newydd a oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad ynghyd â dyletswyddau'r Awdurdodau Trwyddedu i weithredu diwygiadau i'r Ddeddf.

Wrth ystyried goblygiadau gweithredu'r diwygiadau hyn, nodwyd bod pob deddfwriaeth newydd yn cyflwyno mwy o waith sydd fel arfer, yn gam arall mewn proses yn hytrach na gwaith o'r newydd. Eglurwyd, er bod Swyddogion Trwyddedu eisoes yn gwirio rhai o'r dogfennau sydd eu hangen dan Ddeddf Mewnfudo 2016, y byddai'r gofynion newydd yn golygu cynnal pob gwiriad ym mhresenoldeb yr ymgeisydd; gallai'r gwiriadau a cheisiadau cychwynnol gymryd mwy o amser i'w prosesu ynghyd a threfnu i swyddogion dderbyn hyfforddiant pellach ar adnabod dogfennau ffug. Gan mai camau ychwanegol sydd yn ymddangos i'r broses gwirio ceisiadau, anodd yw mesur y goblygiadau yn llawn ac efallai bydd darlun mwy eglur o'r sefyllfa ymhen 6 mis.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Ddeddfwriaeth yn dod i rym ar y 1af o Ragfyr, eglurwyd bod y canllawiau wedi eu derbyn ar ôl y dyddiad yma ac nad oedd fersiwn Gymraeg o'r canllawiau ar gael

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhannu'r wybodaeth gyda chwmnïau tacsi, nodwyd nad oedd newyddlen wedi ei dosbarthu ac felly derbyniwyd yr awgrym i greu taflen syml a dealladwy ar gyfer y cwmnïau tacsi fyddai yn amlinellu diwygiadau'r Ddeddf Mewnfudo 2016.

Derbyniwyd y wybodaeth

## 7. FFORDD GWYNEDD – YMARFER TRWYDDEDU

Cafwyd diweddariad ar lafar gan yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ar ymarferiadau'r gwasanaeth trwyddedu dros y 12 mis diwethaf i adolygu eu prosesau gwaith er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn sydd yn cael ei weithredu.

Nodwyd bod y broses yn rhoi cyfle i bawb gael mewnbwn i'r adolygiad gwasanaeth a bod y broses wedi adnabod cyfleoedd megis,

- Cysoni a rhesymoli polisïau trwyddedu tacsi
- Cyflwyno hunanwasanaeth
- Diddymu elfennau nad oes gwerth iddynt o fewn proses – angen creu proses llyfn

Camau nesaf yr ymarfer yw adnabod yr adnodd i wella a hwyluso

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol;

- Angen sicrhau cysondeb ffioedd tacsi
- Angen diweddaru'r Pwyllgor yn aml o'r sefyllfa er mwyn sicrhau cefnogaeth i hwyluso'r broses ymlaen

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â hwyluso'r adolygiadau, nodwyd y byddai'r Adran yn edrych am gefnogaeth y Pwyllgor ynghyd a rhoi arweiniad i'r broses. Awgrymwyd sefydlu gweithgor i drafod yr adolygiadau a sicrhau mewnbwn.

Derbyniwyd y wybodaeth a diolchwyd i'r Adran am y gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 15.12.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes a John Brynmor Hughes

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Ms A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarn wedi ei gyflwyno a bod y datganiad yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei chais. Ymhelaethodd ar gefndir y drosedd a nododd ei dymuniad i gael gwaith fel gyrrwr tacsi i gefnogi safbwynt a diogelwch merched.

ch) Yn cefnogi cais Ms A roedd Mr M Elderking, Perchennog Cwmni Tacsi. Cadarnhaodd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd a bod swydd ar ei chyfer petai ei chais yn cael ei gymeradwyo. Ategodd bod ei gwmni yn ymateb i'r galw am ferched i yrru tacsi i ferched.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a pherchennog y cwmni tacsi o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Atgoffwyd yr Is-bwyllgor, yn unol ag adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, na ellid rhoi trwydded oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded

e) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y materion canlynol :

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar yr ymgeisydd a Pherchennog y Cwmni Tacsi
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

    - bod gan yr ymgeisydd gollfarnau:

      bod y drosedd o yfed a gyrru yn ogystal â gyrru heb dystysgrif MOT â thrwydded yrru ar yr un dyddiad yn rai hanesyddol. Roedd y drosedd o yfed a gyrru, yn gollfarn unigol ac yn unol â pharagraff 11.1 o Bolisi'r Cyngor dylai cyfnod o leiaf 3 blynedd fod wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben. O ganlyniad, gan fod y gollfarn yn dyddio yn ôl i 2007 nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y gollfarn yn sail i wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

## 6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarn wedi ei gyflwyno a bod y datganiad yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Ymhelaethodd ar gefndir y troseddau a nododd ei fod yn edifarhau. Rhannodd ddau dyst lythyr a oedd wedi ei dderbyn - un gan Reolwr cwmni tacsi a fynegodd ei barodrwydd i'w gyflogi fel gyrrwr tacsi teithiau plant ysgol

ch) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

d) Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Atgoffwyd yr Is-bwyllgor, yn unol ag adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, na ellid rhoi trwydded oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded

dd) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y materion canlynol

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais a sylwadau llafar yr ymgeisydd
- cynnwys y tyst lythyrau
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

  - bod gan yr ymgeisydd gollfarn am ddigwyddiad o ddifrod troseddol a thair collfarn (er nad oedd un wedi ei ddatgelu ar y cofnod DBS) am yfed a gyrru.

    Ystyriwyd bod y collfarnau o yfed a gyrru yn parhau yn 'agored'. Yn unol â pharagraff 11.2 o'r Polisi Trwyddedu, nodir y byddai yn annhebygol rhoi trwydded i ymgeiswyr a chanddynt fwy nag un gollfarn am yrru alcohol onid oes cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers cael y drwydded yrru yn ôl yn dilyn y gollfarn ddiwethaf. Yn yr achos yma, gan nad oedd 10 mlynedd wedi pasio ers i'r gwaharddiad ddod i ben, roedd gofynion cymal 11.2 yn berthnasol.

    Eglurwyd, oni bai bod rhesymau eithriadol pam y dylid gwyro oddi wrth ofynion paragraff 11.2, ni fyddai yr Is-bwyllgor mewn sefyllfa i roi trwydded o dan yr amgylchiadau. Ystyriwyd nad oedd yr amgylchiadau yma yn eithriadol fel bod modd cyfiawnhau gwyro oddi wrth y gwaharddiad o dan baragraff 11.2. o'r Polisi Trwyddedu

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a ni chaniatawyd cais Mr B am drwydded hacni/hurio preifat.**

Eglurodd y cyfreithiwr bod gan yr ymgeisydd hawl i gyflwyno apêl yn y Llys Ynadon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor i wrthod eich cais dim hwyrach na 21 diwrnod o dderbyn llythyr yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:50pm